| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Cabinet |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 12 Rhagfyr 2017 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Nicola Stubbins: Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau<br>Y Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Heidi Roberts, Cyfreithiwr |
| **Teitl:** | Cytundeb y Gronfa Gofal Integredig 2017-2020 |

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

1.1 I ddiweddaru Aelodau ynglŷn â'r dull gweithredu sy'n cael ei fabwysiadu i ffurfioli'r trefniadau cyllid rhanbarthol mewn perthynas â'r Gronfa Gofal Integredig (CCI).

1.2 I geisio awdurdod i gael cadarnhad ac i lofnodi cytundeb cyfreithiol y Gronfa Gofal Integredig a luniwyd ar ran y rhanbarth mewn ymateb i ofynion Canllaw Cronfa Gofal Integredig Llywodraeth Cymru, dyddiedig Ebrill 2017.

2. **Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

2.1 I gynghori ar y canllaw diweddar a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru o ran Cronfa Gofal Integredig.

2.2 Mae gofyn am benderfyniad i gymeradwyo'r dull gweithredu rhanbarthol i drefniadau cyllido CCI ac awdurdodi'r Awdurdod Lleol i gadarnhau ac ymrwymo i gytundeb yn barod i reoleiddio ein perthynas gyda'n Partneriaid.

3. **Beth yw'r Argymhellion?**

3.1 Bod y Cabinet yn nodi cynnwys yr adroddiad hwn.

3.2 Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Cyngor i ymrwymo i gytundeb cyfreithiol rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r chwe awdurdod lleol ar draws Gogledd Cymru, yn rheoleiddio'r llywodraeth a'r prosesau ynghylch gofynion gwariant ac adrodd mewn perthynas â'r Gronfa Gofal Integredig.

3.3 Bod Aelodau'r Cabinet yn cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 1) fel rhan o'u hystyriaethau.

4. **Manylion yr adroddiad**

4.1 Sefydlwyd y Gronfa Gofal Canolraddol yn 2014 i gefnogi mentrau a fyddai'n atal mynediad diangen i'r ysbyty, mynediad amhriodol i ofal preswyl, ac oedi mewn cael

5. rhyddhad o'r ysbyty. O fis Ebrill 2017, mae'r Gronfa wedi cael ei hail enwi fel Cronfa Gofal Integredig i adlewyrchu'r cwmpas ehangach yn well.

4.2 Rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n darparu ar gyfer sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'r byrddau hyn yn dod ag iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, y trydydd sector a phartneriaethau eraill ynghyd i gymryd integreiddiad iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ymlaen. Bydd Aelodau'n ymwybodol bod Cytundeb Integreiddiad eisoes wedi cael ei arnodi gan Sir Ddinbych. Nod y Cytundeb Integreiddiad yw nodi parodrwydd partneriaid i waith integredig a darparu fframwaith yn amlinellu sut bydd integreiddiad yn cael ei gyflawni (yn cynnwys cyfuno cronfeydd). Mae'r Cronfa Gofal Integredig yn faes posib i'w integreiddio o fewn y Cytundeb Integreiddiad.

4.3 Mae gofyn i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddefnyddio'r Gronfa Gofal Integredig i gefnogi cynlluniau a gweithgareddau sy'n darparu agwedd integredig a chydweithrediadol effeithiol o ran y meysydd blaenoriaeth canlynol:

(a) Henoed ag anghenion cymhleth a chyflyrau tymor hir, yn cynnwys dementia;
(b) Pobl ag anawsterau dysgu;
(c) Plant ag anghenion cymhleth oherwydd anabledd neu salwch; a
(d) Gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc.

4.4 Mae dau fenter wedi'i glustnodi hefyd; System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru a'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn benodol.

4.5 Mae canllawiau statudol y Gronfa Gofal Integredig a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru fis Ebrill 2017 yn nodi'r amcanion mae'r Gronfa Gofal Integredig yn bwriadu eu cyflawni, ond hefyd yn gosod yr amodau sy'n datgan bod yn rhaid i'r cyllid gael ei ddefnyddio i gefnogi darpariaeth newydd neu ychwanegol o wasanaethau a ffyrdd o weithio a chynyddu graddfa'r integreiddiad ar draws y rhanbarth.

4.6 Nid oes modd gorwario gan nad oes hyblygrwydd diwedd blwyddyn, ac ni ellir cario cyllid drosodd.

4.7 Dyrennir y cyllid i'r byrddau iechyd o fewn Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, ond mae'n rhaid i benderfyniadau ar wario gael eu gwneud ar y cyd gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ehangach. Mae'n rhaid i'r Bwrdd gael arolygiaeth a sicrhau defnydd effeithiol o ddarpariaeth y Gronfa Gofal Integredig.

4.8 Mae'r canllaw statudol yn rhagnodi bod rhaid i reolaeth y gronfa a'r penderfyniadau ar wario fod yn gadarn; bydd cynllun buddsoddiad refeniw Cronfa Gofal Integredig a chytundeb cyfreithiol rhwng y partïon.

4.9 O ganlyniad, lluniwyd cytundeb ysgrifenedig yn cwmpasu'r materion a nodwyd yn y canllawiau statudol. Mae chwech awdurdod lleol Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn rhan o'r Cytundeb sydd hefyd wedi cael ei arwyddo gan Gadeirydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Bydd angen darparu copi o'r cytundeb i Lywodraeth Cymru.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Gall trefniadau partneriaeth sy'n deillio o'r Gronfa Gofal Integredig gefnogi'r blaenoriaethau corfforaethol canlynol:-

(a) Mae pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy'n diwallu eu hanghenion;
(b) Mae'r cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i gynyddu annibyniaeth a chadernid; a
(c) Mae pobl iau eisiau byw a gweithio yma ac mae ganddynt y sgiliau i wneud hynny.

6. **Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes costau uniongyrchol ynghlwm ag ymuno â chytundeb y Gronfa Gofal Integredig gan fod y cytundeb yn darparu fframwaith llywodraethu a rheoleiddio o nawdd Cronfa Gofal Integredig ar draws y rhanbarth.

7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**

Cwblhawyd dau asesiad effaith hyd yn hyn ynghylch y bartneriaeth a threfniadau cronfa gyfun gyda mandad Rhan 9 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae copi o'r Asesiad Effaith ar Les cyfredol yn amgaeedig yn Atodiad 1.

8. **Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

8.1 Sefydlwyd gweithgor cyllidebau cyfun ar ddechrau 2017. Mae chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cael eu cynrychioli yn y gweithgor hwn. Mae'r grŵp sy'n gyfrifol am wthio'r anghenion cyllidebau cyfun ymlaen, wedi cael eu cynnwys yn natblygiad cytundeb y Gronfa Gofal Integredig.

8.2 Mae'r cytundeb Cronfa Gofal Integredig a gynigwyd, fel y cafodd ei arnodi gan aelodau'r gweithgor cyllidebau cyfun wedi cael eu cylchredeg i gynrychiolwyr cyfreithiol bob partner am ystyriaeth.

8.3 Cymeradwyodd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol y cytundeb Cronfa Gofal Integredig arfaethedig yn ei gyfarfod fis Medi 2017.

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Bydd y cytundeb yn cryfhau trefniadau rhanbarthol presennol a chefnogi'r agenda ehangach o integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol rhanbarthol.

10. **Pa risgiau sydd, ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae gofyn cyfreithiol i'r Cyngor gael cytundeb cyfreithiol yn nodi ei rwymedigaethau a rhai ei bartneriaid o ran nawdd y Gronfa Gofal Integredig. Mae risg o dorri'r canllawiau statudol os nad yw'r Cyngor yn cofrestru i'r gytundeb. Yn ogystal â hynny, mae'r cytundeb yn darparu fframwaith sy'n cynnig cysondeb, eglurder a diogelwch i bob partner o ran llywodraethu'r gronfa a gwneud penderfyniadau yn ei chylch.

11. **Pŵer i wneud y Penderfyniad**

(a) Adrannau 166-167 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014
(b) Rheoliadau y Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015
(c) Canllaw Cronfa Gofal Integredig Llywodraeth Cymru: Ebrill 2017
(d) Rhan 9 y Canllawiau Statudol (Trefniadau Partneriaeth)
(e) Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000